# ELLS(2)-13-06(p4)

## Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Dyddiad: 18 Hydref 2006

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: Bagloriaeth Cymru

Diben

Hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed ar gynllun peilot Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) a'r materion yn ymwneud â chyflwyno'r cymhwyster ar lefel Ganolig ac Uwch ym maes addysg ôl-16.

Crynodeb

Dechreuodd cynllun peilot CBC fis Medi 2003, ym maes darpariaeth ôl-16 yn y lle cyntaf, ar lefel 2 (Canolradd – yn cyfateb i TGAU A* i C) a lefel 3 (Uwch – yn cyfateb i Safon Uwch) y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. O fis Medi 2006 mae model lefel 1 (Sylfaenol – yn cyfateb i TGAU D i G) yn cael ei dreialu ym maes darpariaeth 14-19 ochr yn ochr â'r model Canolradd.

Yn ôl adroddiad y Gwerthusiad Allanol Annibynnol ar gynllun peilot ôl-16 lefel Uwch a Chanolradd a gyhoeddwyd fis Awst 2006, mae'r model yn addas i'w gyflwyno i bob ysgol, coleg a darparwr addysg yn y gweithle yng Nghymru, ar yr amod bod y materion a nodwyd gan yr adroddiad yn cael sylw a bod y model yn cael ei gyflwyno'n raddol.

Bydd cynrychiolwyr o'r canolfannau peilot ac o CBAC, sydd wedi datblygu'r model CBC ac sy'n gyfrifol am ei gyflwyno, yn bresennol yn y cyfarfod.

Cefndir

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 20 Medi nodais y byddwn yn cyflwyno papur ar Fagloriaeth Cymru i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwn.

Mae cyfnod ôl-16 cynllun peilot CBC wedi bod ar waith mewn ysgolion a cholegau Addysg Bellach ers mis Medi 2003. Mae'r broses o ehangu'r cynllun peilot o fis Medi eleni er mwyn cynnwys lefel Sylfaenol yn cydymffurfio ag ymrwymiad 'Cymru: Gwlad Well', ac mae'n mynd ymhellach trwy gyflwyno darpariaeth CBC mewn ysgolion cyn-16. Mae hefyd yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng ein hagenda 14-19 ehangach, yn arbennig felly'r Craidd Dysgu a'r CBC.

Model CBC

Mae'r model yn cynnwys elfen graidd ynghyd ag opsiynau. Mae myfyrwyr yn parhau i ddewis o blith cymwysterau cyffredinol a/neu alwedigaethol cyfredol (fel Safon Uwch, TGAU neu NVQs) fel eu hopsiynau ac mae'r elfen Graidd yn orfodol i bawb. O ran y modelau Uwch a Chanolradd mae'r Craidd yn cynnwys:

- 'Cymru, Ewrop a'r Byd' – astudio materion gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd;
- Modiwl iaith;
- Ymchwiliad annibynnol;
- Llwyddiant (ar lefel benodol) ym mhob un o'r 6 Cymhwyster Sgiliau Allweddol ar gyfer y model lefel Uwch a'r 4 Cymhwyster Sgiliau Allweddol ar gyfer y model lefel Ganolradd, gan ddangos tystiolaeth o fod wedi dilyn pob un o'r chwech sgil allweddol;
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol, a chyfnod o gyfrannu at y gymuned; ac

- Addysg Gysylltiedig â Gwaith a chyfnod o brofiad gwaith.

Er bod y model Sylfaenol yn debyg, mae yna rai gwahaniaethau er mwyn darparu ar gyfer dysgwyr cyn-16 ac ôl-16 sy'n gweithio ar y lefel hon. Mae elfennau allweddol y model fel a ganlyn:

- dilynir y rhaglen Diploma Sylfaenol dros gyfnod o ddwy flynedd cyn-16 a thros gyfnod o flwyddyn ôl-16 gan amlaf;
- bydd rhaid i fyfyrwyr lefel Sylfaenol ennill cymhwyster Sgiliau Sylfaenol mewn pedwar o'r chwech sgil allweddol, gan gynnwys un o'r tri chyntaf ar lefel 1, a dangos tystiolaeth o fod wedi dilyn pob un o'r chwech sgil allweddol;
- bydd yr holl ymgeiswyr yn cymryd rhan mewn tasgau datrys problemau mewn grwpiau, yn seiliedig ar weithgaredd Menter Tîm.
- trwy'r Craidd, mae'r cymhwyster yn darparu'r cyfleoedd a'r profiadau a nodir yng Nghraidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu ar gyfer y grwp 14-19 oed.

Mae lefel Sylfaenol CBC wedi'i chynllunio i gynnwys gofynion statudol Cyfnod Allweddol 4, ac i hwyluso cynnydd i lefel Ganolradd ac astudiaeth ôl-16. Yn yr un modd, mae lefel Ganolradd CBC yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi'i chynllunio i gynnwys y gofynion statudol ac i hwyluso cynnydd ôl-16.

Pwyntiau Gwasanaethau Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS)

Fis Medi 2003, yn dilyn argymhelliad gan banel o arbenigwyr, cyhoeddodd UCAS ei fod wedi penderfynu dyfarnu 120 o bwyntiau tariff i Graidd CBC lefel 3, sy'n cyfateb i radd A Safon Uwch. Felly byddai Diploma Bagloriaeth Cymru ar lefel 3, yn cynnwys dau gymhwyster gradd A Safon Uwch, yn cael 360 o bwyntiau. Er nad yw pob prifysgol yn defnyddio system o bwyntiau tariff, mae llawer ohonyn nhw'n ystyried cyfanswm pwyntiau ymgeiswyr wrth wneud cynnig i ddarpar fyfyrwyr. Mae'r cyfanswm pwyntiau yn helpu tiwtoriaid derbyn i gymharu ymgeiswyr sydd wedi pasio'r CBC â'r rhai sydd â chymwysterau mynediad gwahanol.

Canlyniadau CBC Uwch a Chanolradd Haf 2006

Mae canlyniadau'r CBC wedi bod yn galonogol. Cyhoeddwyd yr ail gohort o ganlyniadau fis Awst. Dyma grynodeb o'r canlyniadau.

Mae cyfradd y rhai sy'n cwblhau CBC yn debyg i gyfradd y rhai sy'n cwblhau cymwysterau eraill ym maes darpariaeth ôl-16. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod angen cwblhau o leiaf 7 cymhwyster annibynnol fel rhan o'r CBC, ac y byddai methu â chwblhau unrhyw un ohonyn nhw'n arwain at fethu'r CBC. Fodd bynnag, fel mae'r llwyddiant ym maes Cymwysterau Sgiliau Allweddol yn ei ddangos, mae ymgeiswyr CBC sy'n methu â chwblhau'r Diploma yn llawn yn llwyddo i ennill cymwysterau gwerthfawr arwyddocaol fel rhan o'r rhaglen.

Er bod CBC wedi'i gynllunio i fod yn gymhwyster cynhwysol sy'n addas i fyfyrwyr o amrywiaeth eang o alluoedd a chefndiroedd, mae canlyniadau cynnar yn dangos bod mwy o ferched na bechgyn yn llwyddo i gwblhau'r rhaglen CBC. Yng nghyd-destun y cynllun peilot, gall hyn adlewyrchu natur y cyrsiau y mae canolfannau peilot wedi cysylltu darpariaeth CBC â nhw. Wrth gyflwyno'r rhaglen, byddem yn awyddus i fonitro hyn a sicrhau bod CBC yn hygyrch i'r amrywiaeth ehangaf posibl o fyfyrwyr.

Safon Uwch

- Cyhoeddwyd yr ail gohort o ganlyniadau Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru ar 17 Awst 2006. Dyma grynodeb o'r pwyntiau allweddol:
- Cofrestrodd 800 o ymgeiswyr ar gyfer Diploma Uwch CBC
- Llwyddodd 632 (79% o'r myfyrwyr a ymgeisiodd) i gwblhau Diploma Uwch CBC
- Mae 483 o ymgeiswyr (76% o'r rhai a lwyddodd i gwblhau'r Diploma) wedi cwblhau'r Craidd a'r gofynion dewisol ac wedi ennill Diploma Uwch CBC yn llawn
- Llwyddodd 550 o ymgeiswyr (87% o'r rhai a lwyddodd i gwblhau'r Diploma) i gwblhau Tystysgrif Graidd Diploma Uwch CBC yn llawn
- Llwyddodd yr 82 o ymgeiswyr sydd heb ennill y Dystysgrif Graidd i ennill 3 Chymhwyster Sgiliau Sylfaenol yr un ar gyfartaledd.

Lefel Ganolradd

Mae Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru yn gwrs dwy flynedd, ond mae llawer o fyfyrwyr, yn enwedig mewn colegau Addysg Bellach yn dewis ei gwblhau mewn blwyddyn, gan adeiladu ar eu llwyddiant ar lefel ganolradd yng Nghyfnod Allweddol 4. Dyma elfennau allweddol canlyniadau Haf 2006:

- Cofrestrodd 722 o fyfyrwyr i sefyll yr arholiad ym mis Chwefror 2006
- Hyd yma mae 263 o fyfyrwyr wedi cwblhau Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru ar ôl blwyddyn o astudio
- Mae 167 (63%) o fyfyrwyr wedi llwyddo i gwblhau Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru yn llawn

- Mae canolfannau peilot wedi nodi bod hyd at 211 o fyfyrwyr wedi gohirio cwblhau’r Diploma tan y flwyddyn academaidd nesaf – er mai ffigur dros dro yw hwn
- Mae 206 (78%) o’r 263 o fyfyrwyr sydd wedi cwblhau’r rhaglen wedi ennill y Dystysgrif Graidd, gan gynnwys pob un o’r 6 Cymhwyster Sgiliau Allweddol
- Mae’r 57 o ymgeiswyr sydd wedi cwblhau’r rhaglen, ond sydd heb ennill y Dystysgrif Graidd, wedi llwyddo i ennill 3 Chymhwyster Sgiliau Allweddol yr un ar gyfartaledd.

Gwerthuso

Ers dechrau’r prosiect, mae’r tîm CBAC wedi cynnwys cynrychiolwyr o Brifysgol Caerfaddon fel Gwerthuswyr Mewnol. Gydol y prosiect peilot, mae staff a dysgwyr wedi nodi’n gyson eu bod yn hoffi dull dysgu CBC ac yn gwerthfawrogi’r profiadau ehangach a’r meysydd amrywiol y mae’r rhaglen yn eu cynnig a’u cydnabod. Ymhlith y manteision penodol a nodwyd oedd y cyfle i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac addysgol a’r cyfle i baratoi’n well ar gyfer Addysg Uwch, cyflogaeth a chyfweliadau. Nodwyd bod myfyrwyr wedi meithrin mwy o hunanhyder a’u bod wedi blasu meysydd addysg a phrofiadau ehangach nag a fyddent pe na byddent wedi dilyn rhaglen CBC.

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y Gwerthusiad Allanol ar gynllun peilot ôl-16 CBC gan Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Dysgu Gydol Oes Prifysgol Nottingham (CDELL) ar 10 Awst 2006. Anfonwyd e-bost at aelodau’r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 10 Awst gan y Clerc yn eu hysbysu am yr adroddiad. At ei gilydd mae’r adroddiad yn cadarnhau llawer o negeseuon y canolfannau peilot, yn anffurfiol a thrwy’r gwerthusiad mewnol. Prif ganfyddiad CDELL yw bod y model yn addas i’w gyflwyno i’r holl ysgolion, colegau a darparwyr addysg yn y gweithle yng Nghymru, ar yr amod bod y materion a nodwyd gan yr adroddiad yn cael sylw a bod y model yn cael ei gyflwyno’n raddol.

Mae’r materion allweddol a nodwyd gan yr adroddiad yng nghyswllt cyflwyno Bagloriaeth Cymru yn y tabl isod ochr yn ochr â’m sylwadau.

| Mater | Sylwadau |
|---|---|
| Materion Cyllido | |
| Angen i gynnal darpariaeth ar gyfer costau cynllunio (ac amser) i ganolfannau sydd am gynnig CBC. | Derbyn yr argymhelliad hwn. Os yw CBC yn cael ei gyflwyno, bydd swyddogion yn gweithio’n agos â CBAC i sicrhau bod trefniadau addas ar waith. |
| Angen i sicrhau bod cyllid addas ar gyfer CBC yn rhan o’r fformiwlâu cyllido. | Derbyn. Byddai angen sicrhau trefniadau cyllido addas er mwyn cyflwyno CBC – wedi’u neilltuo yn y lle cyntaf. |

| | |
|---|---|
| Oherwydd y gofyniad cyllido (a materion eraill fel hyfforddi staff, gallu CBAC i gynorthwyo ac adnoddau eraill), byddai angen cyflwyno CBC yn raddol mwy na thebyg. | Derbyn. Mae'n bwysig bod cymorth CBAC – sydd wedi derbyn canmoliaeth uchel yn ystod y cyfnod peilot yn ôl adroddiad CDELL - a chymorth gan ffynonellau eraill (ee AALlau a Rhaglen Cymorth Sgiliau Allweddol Cymru) ar gael yn eang ac yn gallu ymdopi â'r galw. |
| Materion Marchnata | |
| Byddai cydnabyddiaeth i CBC mewn sawl maes yn hanfodol. Yn ogystal â myfyrwyr a staff canolfannau, y grwpiau allweddol yw rhieni, Sefydliadau Addysg Uwch a chyflogwyr. | Cytuno. Mae cydnabyddiaeth gan y grwpiau allweddol a nodir gan CDELL yn hanfodol i lwyddiant cymhwyster newydd bob amser. |
| Os penderfynir cyflwyno CBC, bydd angen cynyddu lefel y marchnata. | Derbyn. Bydd cynnwys amrywiaeth o'r prif randdeiliaid, gan ddatblygu'r hyn sydd eisoes ar waith, yn flaenoriaeth wrth gyflwyno CBC. |
| Strwythur Cymhwyster Bagloriaeth Cymru | |
| Byddai deunyddiau ychwanegol (yn enwedig deunyddiau enghreifftiol) a chymorth gan Raglen Cymorth Sgiliau Allweddol Cymru (yn arbennig ar gyfer canolfannau a fyddai'n newydd i'r maes Sgiliau Allweddol) yn bwysig wrth gyflwyno CBC. | Derbyn. Mae CBAC eisoes yn datblygu canolfan adnoddau ar y we ar gyfer canolfannau CBC. Byddai angen datblygu hyn ymhellach fel rhan o unrhyw gynlluniau i gyflwyno CBC. |
| Dylid ystyried y broses o raddio'r Dystysgrif Graidd, neu elfennau ohoni, o bosibl trwy fwrw golwg ar ddatblygiad cymwysterau diploma arbenigol yn Lloegr. | Derbyn. Mae'r posibilrwydd o raddio craidd CBC, neu rannau ohono, yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ystyried datblygiad cymwysterau eraill. |
| Gellid cydnabod llwyddiant rhannol mewn perthynas â Thystysgrif Graidd CBC, a dylid archwilio'r cysylltiadau â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) yn fanylach. | Derbyn. Mae cydnabod llwyddiant rhannol mewn perthynas â'r Dystysgrif Graidd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae CQFW yn fecanwaith posibl ar gyfer hyn. |
| Materion Hirdymor | |
| Olrhain llwybr myfyrwyr CBC ym meysydd cyflogaeth ac Addysg Uwch er mwyn asesu a ydyn nhw wedi elwa yn sgil eu profiadau CBC. | Derbyn. Rwyf wedi derbyn erioed bod myfyrwyr sydd wedi cwblhau CBC yn gallu bod yn ffordd effeithiol iawn o ddangos gwerth CBC mewn Addysg Uwch a chyflogaeth. Mae dilyn llwybrau myfyrwyr yn rhan annatod o flaengynllunio i werthuso CBC. |

| | |
|---|---|
| Asesu effeithiau posibl CBC ar batrymau darpariaeth traddodiadol. | Bydd hon yn elfen bwysig wrth gyflwyno CBC. Bydd nifer o fentrau, yn arbennig felly Cynllun Gweithredu 14-19 a'r adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn cyfrannu at gyflwyno darpariaeth sy'n fwy hyblyg ac sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr – sef y ddarpariaeth rydym am ei gweld. |

Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi ymateb y Llywodraeth i argymhellion allweddol y gwerthusiad allanol yn barod ar gyfer y Cynllun Gweithredu a gyflwynir i'r Pwyllgor ar 18 Hydref.

Jane Davidson
Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Pwynt Cyswllt: Julian Pritchard, Yr Is-adran Cymwysterau a Chwricwlwm 14-19, ffôn: 20375444